

Is-ddeddfwriaeth sydd ag Adroddiadau Clir 08 Chwefror 2021

SL(5)734 – Cod Ymarfer a Chanllawiau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Cefndir a Diben

Mae dwy ran i'r ddogfen hon.

Cod ymarfer i awdurdodau lleol ar arfer eu swyddogaethau mewn perthynas ag adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yw Rhan 1 o'r ddogfen hon. Mae'n nodi'r dull y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei ddefnyddio, ar y cyd â Byrddau Iechyd Lleol a phartneriaid eraill y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, i baratoi a chyhoeddi adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer ardal eu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Canllawiau statudol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ar weithio mewn partneriaeth drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i baratoi ac i gyhoeddi adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yw Rhan 2 o'r ddogfen hon.

Gweithdrefn: Drafft Negyddol

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r cod gerbron y Senedd. Os, o fewn 40 diwrnod (ac eithrio diwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y gosodir y drafft, y bydd y Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r cod drafft, rhaid i Weinidogion Cymru beidio â dyroddi'r cod.

Os na wneir penderfyniad, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r Cod (ar ffurf y drafft), a daw'r cod i rym ar ddiwrnod a bennir drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

(Nid oes gweithdrefn gan y Senedd ar gyfer y rhan o'r ddogfen hon sy'n rhoi canllawiau statudol.)

Rhiant-Ddeddf: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Fe'u gwnaed ar:

Fe'u gosodwyd ar: 26 Ionawr 2021

Yn dod i rym ar:

